



CRWSIBL

ADRODDIAD CHARRETTE

**AR DDYLUNIO
TREFTADAETH
DDIWYDIANNOL**

**AR GYFER
MERTHYR
TUDFUL**

The background of the entire page is a sepia-toned landscape painting. It depicts a wide valley with rolling hills. In the foreground, there are several large, leafy trees on the left and a tall, slender tree on the right. The middle ground shows a valley floor with more trees and a small cluster of buildings. In the far distance, a castle or large estate is visible on a hill. The sky is filled with soft, wispy clouds and a few small birds are scattered across it. The overall tone is warm and historical.

**“BETH BYNNAG FO EICH CYNLLUN,
GWNEWCH YN SIŴR EI FOD Y
CYNLLUN GORAU YN Y BYD.”**

Adroddiad ac argymhellion yn sgil y charrette a gynhaliwyd
yng Nghastell Cyfarthfa ddydd Sadwrn, 21 Hydref 2017

Paratowyd ac ysgrifennwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru
a Geraint Talfan Davies

Castell Cyfarthfa a'r llyn, gan Penry Williams.
Llun drwy garedigrwydd Llyfrgelloedd Merthyr Tudful

Rhif ISBN Crwsibl: 978-0-9552657-8-5

CRWSIBL

CYNNWYS

- 02 Cyflwyniad
- 04 Argymhellion
- 05 A: Gosod y Sefyllfa – Pam Merthyr Tudful?
- 06 Pwrpas y charrette
- 08 B: Pum Her
- 11 C: Pedair elfen amlwg
- 12 1: Eglwys Gadeiriol ar gyfer ein Treftadaeth Ddiwydiannol
- 16 2: Plethu tirwedd gysylltiedig
- 20 3: Tu hwnt i Gyfarthfa – Tu hwnt i Ferthyr
- 24 4: Fframwaith blwyddyn ar gyfer digwyddiadau
- 26 CH: Adnoddau, cyflwyno a rheoli
- 27 Casgliad
- 28 Atodiad A: Matrics o brosiectau, adnoddau a manteision posib
- 30 Atodiad B: Astudiaethau achos dethol

'charrette'

cyfarfod neu weithdy cyhoeddus sy'n ceisio datrys problem neu gynllunio dyluniad o rywbeth. Saesneg Canol Hwyr (sy'n golygu cart neu wagen): o'r gair Ffrengig charrette, sy'n llythrennol, yn golygu 'cart'; mae'r ystyr presennol yn dyddio o ganol yr 20fed ganrif, ac o bosib, yn cyfeirio at ddefnyddio cart ym Mharis yn y 19eg ganrif i gasglu gwaith myfyrwyr pensaernïol ar ddiwrnod arddangosfa.

'crwsibl'

llong wedi'i hadeiladu i allu dioddef gwres mawr; pair.

Ar 21 Hydref 2017 yng Nghastell Cyfarthfa, Merthyr Tudful, daeth Comisiwn Dylunio Cymru ac Ysgol Bensaerniaeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd ynghyd â thîm amlddisgyblaeth i ymchwilio i'r posibilïadau o fewn y dref a'r dirwedd gyfagos mewn ymarfer gweledigaeth feiddgar a oedd yn ceisio chwilio am ffyrdd o wneud asedau treftadaeth Merthyr yn fwy na'i rhannau unigol, a thanlinellu eu harwyddocâd rhyngwladol gwirioneddol.

Cefnogwyd y charrette undydd hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr ac Ymddiriedolaeth Treftadaeth Merthyr Tudful, a chafodd ei wneud yn bosib diolch i gyllid gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a chymorth gan Design Circle Cymdeithas Frenhinol Penseiri yn Ne Cymru. Daeth y digwyddiad â mwy na 60 o feddyliau creadigol at ei gilydd - penseiri, penseiri tirwedd, cynllunwyr, arbenigwyr treftadaeth ac artistiaid - i archwilio a gwerthuso'r posibilrwydd o gwmpas Cyfarthfa, yn y dref a'r dirwedd ehangach, er mwyn llunio gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

CYFLWYNIAD

Mae safle Merthyr Tudful yn hanes cymdeithasol, gwleidyddol a diwydiannol Cymru heb ei ail. Dyma'r crwsibl ble ffurfiwyd y chwyldro diwydiannol, a lle trawsnewidiodd y gwaith o greu canolfan cynhyrchu haearn fwyaf y byd bentref bach yn dref fwyaf Cymru. Cyflogwyd miloedd o bobl yng ngweithfeydd haearn Cyfarthfa, Dowlais, Pen-y-darren a Plymouth, a throwyd Cymru yn economi ddiwydiannol fyd-eang, drwy fuddsoddi mewn syniadau, technolegau a thechnegau newydd. Yn sgil hyn, ystyriwyd enw Merthyr ar ddiwedd yr 18fed a'r 19eg ganrif yn gyfystyr ag arloesedd.





Llun drwy gwrteisi Llyfrgelloedd Merthyr Tudful.




Mae casgliad cyfoethog o asedau treftadaeth y dref yn cynnig cyfle unigryw i gyflawni'r cysondeb a'r effaith y mae Merthyr yn ei haeddu. Gyda gweledigaeth feiddgar, gallai'r asedau hynny stampio eu hunain eto ar ymwybyddiaeth y cyhoedd mewn ffordd sy'n gweddu i'r dref fel man o arwyddocâd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae datblygiad Rhanbarth y Brifddinas yn ne-ddwyrain Cymru yn cynnig cyfle euraidd i Ferthyr ddefnyddio ei hasedau treftadaeth i gerfio lle i'w hun fel cyrchfan y gellir ei chymharu â lleoedd tebyg yn Ewrop - safle angori ar Lwybr Treftadaeth Ddiwydiannol Ewrop - yn ogystal â chyfraniad allweddol i ranbarth ddinesig sydd wedi ei lleoli rhwng yr arfordir a chefn gwlad. Gyda'r weledigaeth a'r uchelgais gywir ynghyd ag adnoddau digonol, wedi'u targedu, a dulliau rheoli prosiectau da, mae potensial i greu atyniad i ymwelwyr a fyddai'n trawsnewid y ddelwedd o'r dref a'i heconomi, ac a fyddai'n ychwanegiad pwerus at ddiwydiant twristiaeth Cymru.

Mae'r charrette - sef diwrnod dwys o gynhyrchu syniadau - yn ystyried sut y gallai Castell Cyfarthfa, ei dirwedd estynedig a'i dreftadaeth adeiledig, ddod yn gyrchfan ac yn brofiad o ansawdd rhyngwladol i ymwelwyr, a fyddai'n hyrwyddo'r ymdeimlad o le sydd yno'n barod yn well. Ystyriodd ffyrdd newydd y gellid cysylltu'r asedau pwysig hyn ag asedau eraill ar draws y dref a thu hwnt i gyflymu'r broses o adfywio a thwristiaeth, i gael yr effaith fwyaf, ac i gyflwyno manteision go iawn i'r cyhoedd. Tynnodd y canfyddiadau sylw at bedwar maes integredig strategol:

- 1 Eglwys gadeiriol ar gyfer ein treftadaeth ddiwydiannol
- 2 Plethu tirwedd gysylltiedig
- 3 Tu hwnt i Gyfarthfa – Tu hwnt i Ferthyr
- 4 Fframwaith blwyddyn ar gyfer digwyddiadau

Mae'r adroddiad hwn yn argymhell mynd ar drywydd y meysydd hyn, ac mae'n amlinellu'r adnoddau, yr amserlenni a'r dulliau angenrheidiol sydd eu hangen arnynt i wireddu eu potensial llawn.



ARGYMHELLION

- > Bod datblygiad Castell Cyfarthfa a'r ystad i'r dwyrain a'r gorllewin o Afon Taf yn cael eu cydnabod fel Canolfan Genedlaethol o Dreftadaeth Ddiwydiannol ar raddfa y mae ei bwysigrwydd hanesyddol yn deilwng, ac fel prosiect angori yn y gwaith o ddatblygu potensial twristiaid i gymoedd de Cymru.
- > Y dylai Cyfarthfa ddod yn dironod treftadaeth ddiwydiannol genedlaethol, drwy greu adeilad o ansawdd rhyngwladol newydd gerllaw'r castell a fyddai'n gartref i atyniad i ymwelwyr ar sail hanes diwydiannol a chymdeithasol Merthyr a'i gyrhaeddiad rhyngwladol, yn ogystal â mannau arddangos dros dro a chanolfan addysg:
 - > cyflawni cyfuniad o naratif hanesyddol a gwledd weledol o ansawdd uchel, yn defnyddio'r technolegau diweddaraf, er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr bedair gwaith yn fwy na'r niferoedd ar hyn o bryd.
 - > creu cynllun datblygu tirwedd arwahanol o ansawdd rhyngwladol, a fyddai'n manteisio ar nodweddion gwahanol ystad Cyfarthfa i'r dwyrain a'r gorllewin o Afon Taf, creu gwell cysylltiad rhwng y ddau, a chynnwys cadwraeth ffrwrneisi
- Crawshay a chreu mannau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus.
- > Creu Dull Pwrpas Arbennig i lywio'r prosiect hwn, i ddod â'r holl randdeiliaid llywodraethol a chymunedol at ei gilydd gyda'r arbenigedd arbenigol gorau, a sicrhau parhad y weledigaeth dros y cylchoedd gwleidyddol tymor hir a thu hwnt.
- > Y dylid mabwysiadu'r safonau rhyngwladol uchaf ym mhopeth: dyluniad adeiladau, datblygu'r tirwedd, curadu, adrodd straeon, arddangos a chomisïynu celf gyhoeddus.
- > Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal cystadleuaeth bensaernïol ar gyfer dylunio prif adeilad Cyfarthfa.
- > Y dylai Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac archifau eraill gydweithio i ddarganfod yr holl gelf ac arteffactau perthnasol a allai gyfrannu at yr arddangosfeydd sy'n adrodd hanesion o arwyddocâd byd-eang yng Nghyfarthfa.
- > Y dylai'r datblygiad yng Nghyfarthfa gael ei ddatblygu gyda'r potensial o fod yn safle angori ar Lwybr Treftadaeth Ddiwydiannol Ewrop ac yn estyniad i Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon.
- > Bod datblygiad Cyfarthfa yn cael ei ddefnyddio fel prif ysbrydoliaeth ar gyfer datblygu gweddill y dref o ran pob agwedd ar les a chynaliadwyedd, gan gynnwys datblygiad economaidd (yn enwedig trwy'r diwydiannau creadigol), gweithgarwch diwylliannol, estyniad o strategaeth werdd i'r strwythur trefol a theithio llesol a chynaliadwy.
- > Y dylai Cyngor Merthyr, Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful ystyried y cynigion hyn ar frys gyda golwg ar ymagwedd ddiwygiedig i Gronfa Treftadaeth y Loteri a chais brys am gyllid Ewropeaidd drwy'r ERDF a / neu Ewrop Greadigol.
- > Na chymerir camau cyn eu hamser, a fyddai'n creu rhwystrau tuag at wireddu gweledigaeth fwy ar gyfer Cyfarthfa.



Castell Cyfarthfa o Afon Taf, Penry Williams



Llun drwy gwrteisi Llyfrgelloedd Merthyr Tudful

A. GOSOD Y SEFYLLFA – PAM MERTHYR TUDFUL?

Dim ond dau le yng Nghymru sy'n gallu priodoli cyfraniad Cymru yn y chwyldro diwydiannol – Abertawe a Merthyr Tudful. Abertawe oedd y lle cyntaf, gyda'i mwyndoddfeydd copr yn y 1720au, ond nid oes unrhyw beth yn gallu cystadlu â graddfa'r datblygiad diwydiannol ym Merthyr yn nes ymlaen yn yr un ganrif, nac ychwaith, cyfraniad Merthyr i eiconograffi hanes diwydiannol, cymdeithasol a gwleidyddol Cymru.

Merthyr ydy'r crwsibl lle ffurfiwyd y chwyldro diwydiannol, lle trawsnewidiodd y gwaith o greu canolfan cynhyrchu haearn fwyaf y byd bentref bach i fod yn dref fwyaf Cymru. Roedd gweithfeydd haearn Cyfarthfa, Dowlais, Pen-y-darren a Plymouth yn cyflogi miloedd, a datblygodd Cymru i fod yn economi ddiwydiannol fyd-eang, drwy fuddsoddi mewn syniadau, technolegau a thechnegau newydd ac yn sgil hynny, gwneud enw Merthyr ar ddiwedd y 18fed a'r 19eg ganrif yn gyfystyr ag arloesedd.

Yn yr 19eg ganrif, roedd Merthyr Tudful:

- > Yn ganolfan cynhyrchu haearn fwyaf y byd
- > Yn dref hollol ddiwydiannol gyntaf Cymru, ac o 1801-61, ei thref fwyaf
- > Yn gartref i glwstwr o feistri haearn chwedlonol - Crawshay, Guest, Bacon, Hill, a Homfray.
- > Yn fan geni'r locomotif stêm cyntaf gan Trevithick
- > "Yn fan geni dosbarth gweithiol Cymru"
- > Yn lleoliad 'Terfysg Merthyr' ym 1831 ac yn fan geni merthyr mwyaf adnabyddus y dosbarth gweithiol, sef Dic Penderyn.
- > Y fro wleidyddol lle dathlodd Henry Richard a Keir Hardie drobwyntiau allweddol mewn datblygiad gwleidyddol ehangach.
- > Yn gatalydd ar gyfer datblygu'r hyn sydd bellach yn brifddinas Cymru

Mae'n wir fod llawer o dreftadaeth ffisegol Merthyr wedi cael ei cholli neu ei chuddio, ond dros y 30 mlynedd diwethaf, mae mwy o ymwybyddiaeth wedi bod o bwysigrwydd cadw'r hyn sy'n weddill a dod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio'r dreftadaeth honno i adrodd hanes Merthyr. Mae Belfast wedi gallu creu ei 'Titanic Centre' er gwaethaf y ffaith bod y prif arteffact ar waelod Cefnfor yr Iwerydd.


PWRPAS Y CHARRETTE

Pwrpas y charrette oedd adnabod a diffinio nifer o themâu allweddol a phrosiectau posibl y gallai'r awdurdod lleol, Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr a phartneriaid eraill – gan gynnwys rhanbarth y ddinas a Llywodraeth Cymru – eu datblygu a'u gwireddu. Mae rhai o'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar ystad Cyfarthfa, tra mae eraill yn ystyried cysylltiadau ehangach o fewn ac y tu hwnt i'r dref. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys datblygiad ffisegol, adrodd straeon, profiad ymwelwyr a chysylltedd.

CYFLEOEDD

Mae'r sefyllfa bresennol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd a fyddai'n gwneud datblygiad uchelgeisiol yn amserol:

- > Treftadaeth ddiwydiannol gyfoethog sy'n cynnwys hanes o arloesedd a dychymyg diwydiannol a allai fod yn ysbrydoliaeth hefyd ar gyfer yr 21ain ganrif
- > Asedau tirwedd ac adnoddau naturiol ffisegol, gan gynnwys Afon Taf, sy'n bwysig iawn i Ferthyr Tudful fel y mae Parc Bute i Gaerdydd.
- > Yr angen i ddod o hyd i rôl newydd i Gastell Cyfarthfa, yn dilyn cau adeiladau'r ysgol o'r 20fed ganrif sy'n sownd iddo, ac i ailystyried hanes stori bwysig Merthyr ac arddangos ei hasedau hanesyddol.
- > Yr angen brys i ddiogelu ffwrneisi hanesyddol a dramatig Crawshay.
- > Y potensial i Gastell Cyfarthfa a'i ystad, ynghyd ag ardaloedd cysylltiedig i'r dwyrain a'r gorllewin o'r Taf, ddod yn gyrchfan bwysig fel rhan o lwybr dynodedig i dwristiaid a pharc tirwedd yn y cymoedd.
- > Lleoliad strategol Merthyr Tudful ar groesffordd yr A465 a'r A470, sy'n bwynt canolog ar Flaenau'r Cymoedd, rhwng prifddinas Cymru a Pharc Cenedlaethol cyfagos Bannau Brycheiniog.
- > Cysylltiadau presennol a rhai'r dyfodol fel Llwybr Taf, Metro De Cymru, A465 Blaenau'r Cymoedd a ffyrdd yr A470.
- > Potensial buddsoddi yn sgil datblygiad cydamserol Rhanbarth Cyfalaf Caerdydd, Bargaen Ddinesig, Tasglu'r Cymoedd a strategaethau twristiaeth newydd Cymru a'r DU.
- > Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fel sbardun ar gyfer datblygiad rhagorol a hunaniaeth ddiwylliannol. Mae cyfle i ychwanegu dimensiwn gofodol a diwylliannol i Gynllun Lles Merthyr drwy'r prosiect hwn.
- > Awydd lleol a gwleidyddol a brwdfrydedd dros newid a syniadau mawr.
- > Datblygiadau hamdden eraill sydd eisoes ar y gweill yn y dref.
- > 2018 yw Blwyddyn Treftadaeth Ddiwylliannol Ewrop, ac mae chwe mis yn cael ei neilltuo i dreftadaeth ddiwydiannol, felly dyma'r flwyddyn gywir i ddechrau ar brosiect o'r raddfa hon.



VISION

Walkable + cycling - focus

Integrated + convenient

World class.

Innovation + material

Artisan - food + craft

... business + heritage

B. PUM HER

Os manteisir ar y cyfleoedd hyn yn llawn er budd y dref ac fel adnodd cenedlaethol, bydd angen bodloni sawl her.



HER 1: YR UCHELGAIS CYWIR

Yr her gyntaf yw pennu'r lefel gywir o ran uchelgaïs. Mynegodd llawer o gyfranogwyr yn y charrette bryder bod y cynlluniau presennol yn rhagweld newidiadau cymharol fach ar raddfa fach, ac er eu bod yn werthfawr ynddyn nhw eu hunain, na fuasent yn creu'r effaith drawsnewidiol a fyddai'n effeithio ar dynged economaidd y dref, nac ychwaith, yn ychwanegu'n sylweddol at dwristiaeth yng Nghymru. Er gwaethaf nifer o adroddiadau manwl dros fwy na thri degawd, does dim cysylltiad ar hyn o bryd rhwng mynegiannau mentrus o bwysigrwydd hanesyddol ehangach Merthyr, a graddfa gyfyngedig y datblygiadau arfaethedig. Mae angen bod yn fwy parod i feddwl ar raddfa fawr, i gael gwared ar rwystrau, ac i ddychmygu hyn fel prosiect cenedlaethol yn hytrach na phrosiect lleol.

'Make no little plans; they have no magic to stir men's blood and probably themselves will not be realized. Make big plans; aim high in hope and work, remembering that a noble, logical diagram once recorded will never die, but long after we are gone be a living thing, asserting itself with ever-growing insistency. Remember that our sons and our grandsons are going to do things that would stagger us. Let your watchword be order and your beacon beauty.'
Daniel Burnham, Pensaer, 1911



HER 2: Y TARGEDAU CYWIR

Y cyfle gorau sydd gan Ferthyr o'i thrawsnewid a denu ymwelwyr a fydd yn aros, yn gwario arian ac yn dychwelyd ydy drwy gynyddu ein huchelgais y tu hwnt i'r lefel bresennol. Mae tua 60,000 o bobl yn ymweld â Chastell Cyfarthfa bob blwyddyn. Efallai y bydd canolfan fwy uchelgeisiol yn gallu denu tair i bum gwaith y nifer honno. Er enghraifft, yn 2015, ymwelodd 257,000 o bobl ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe, ymwelodd 309,000 o bobl â Pharc Gwledig Margam, ymwelodd 140,000 o bobl ag Amgueddfa Lechi Cymru ac ymwelodd 147,000 o bobl â Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru. Gyda'r cyfuniad cywir o reddf ac artistwaith amrywiol, mae'r ffigurau hyn, a mwy, ymhell o fewn cyrraedd Merthyr.

HER 3: PARATOI YN GYWIR

Os ydy Merthyr yn mynd i fanteisio ar y cyfle i fod yn dirnod treftadaeth ddiwydiannol genedlaethol newydd, a chael ei chymharu â'r hyn sydd eisoes yn bodoli yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe, mae'n rhaid cynnal archwiliad llawnach o'r holl asedau hanesyddol y gellir eu cyfeirio mewn perthynas â'i hanes. Byddai hyn yn cynnwys nid yn unig asedau'r amgueddfa bresennol yng Nghyfarthfa ond hefyd, asedau perthnasol a allai fod yn cael eu cadw ar hyn o bryd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac mewn archifau eraill.

O ystyried yr Adolygiad Thurley* a gynhaliwyd yn ddiweddar i Lywodraeth Cymru, sy'n rhagweld y bydd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe yn cael ei hailwampio, byddai'r fenter hon ym Merthyr yn amserol o ran galluogi cynllunio cydlynus. Mae'n rhaid i'r gwaith hwn o ddod o hyd i'r holl asedau hanesyddol perthnasol a allai fod yn sail i lawer o agweddau ar hanes Merthyr a fyddai'n cyfrannu at atyniad mawr i ymwelwyr, fod yn rhan hanfodol o'r broses gynllunio. Dylid ystyried hyn cyn caffael adeiladau. Mae'n rhaid cymryd gofal i beidio â chymryd camau'n rhy gynnar a fyddai'n creu rhwystrau i wireddu gweledigaeth fwy.

* Adolygiad o Amgueddfa Cymru, gan Dr Simon Thurley CBE ar gyfer Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017.



HER 4: YR ANSAWDD CYWIR

Nododd y charrette dair nodwedd hanfodol a ddylai fod yn sail i'r ymagwedd gyffredinol: ansawdd, ansawdd, ansawdd. Fel y dywedodd un cyfranogwr: "Beth bynnag fo eich cynllun, gwnewch yn siŵr ei fod y cynllun gorau yn y byd." Dylai hyn fod yn berthnasol nid yn unig wrth gynllunio a gweithredu pob prosiect, ond wrth integreiddio'n ddychmygus â nifer o wahanol elfennau - yn gyntaf, dylunio, cyflwyno a pharhau i reoli unrhyw brosiectau sy'n deillio o'r broses hon; yn ail, sicrhau bod manteision yr ymagwedd hon yn cael eu hymestyn i weddill y dref.


Dylai'r pwyslais hwn ar ansawdd uchel fod yn amlwg ym mhob agwedd ar y prosiect:

- > Curadu ac adrodd hanesion arloesol
- > Y gymysgedd gywir o naratif a gwledd i'r llygaid
- > Rhagoriaeth dylunio
- > Datblygu tirwedd o ansawdd
- > Defnyddio tirwedd fel adnodd – ynni, dŵr, deunyddiau
- > Integreiddio'n ddychmygus â threftadaeth a chelf gyfoes
- > Integreiddio tref a thirwedd yn well
- > Cyfrannu at 'dref lesol' - byw, gweithio, hamdden, iechyd
- > Defnyddio datblygiad fel sbardun ar gyfer arloesedd, addysg a sgiliau
- > Gweledigaeth tymor hir gyda'r hyblygrwydd i addasu

HER 5: Y CYSYLLTIADAU CYWIR

Nododd y charrette sawl agwedd ar gysylltedd y byddai angen mynd i'r afael â hwy i fwyhau'r effaith

- > Gwella cysylltiadau trafnidiaeth a theithio egnïol rhwng canol trefi a safleoedd treftadaeth allweddol ym Merthyr
- > Creu arwyddion arwyddocaol o safon uchel ar gyfer llwybr treftadaeth Merthyr
- > Cyfeirio at rwystrau a achosir gan ddatblygiad a ffyrdd presennol o ansawdd gwael
- > Dychmygu'r prosiect fel cynnig craidd ar gyfer Tasglu'r Cymoedd
- > Cysylltu ag asedau treftadaeth ddiwydiannol eraill yng Nghymru a'r DU
- > Sefydlu Merthyr fel safle angori ar Lwybr Treftadaeth Ddiwydiannol Ewrop
- > Ystyried y posibilrwydd o ymestyn Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon i gynnwys Merthyr
- > Datblygu gwefan llawn dychymyg ar-lein ar gyfer treftadaeth ddiwydiannol Cymru sy'n cysylltu lleoliadau gwahanol yn themâu a theithiau cydlynol ar draws Cymru. Dylai hyn fod yn hygyrch, yn annibynnol a drwy wefan Croeso Cymru.



C. PEDAIR ELFEN AMLWG

Cafwyd llawer o syniadau yn ystod y charrette, a phenderfynwyd ar bedair elfen bwerus, gyda phob un yn cyflwyno ac yn darparu sylfeini ar gyfer y llall:

- 1 Eglwys gadeiriol ar gyfer ein treftadaeth ddiwydiannol
- 2 Plethu tirwedd gysylltiedig
- 3 Tu hwnt i Gyfarthfa – Tu hwnt i Ferthyr
- 4 Fframwaith blwyddyn ar gyfer digwyddiadau

Ni ddylid ystyried y pedair elfen, a ddisgrifir yn fanylach ar y tudalennau canlynol, fel prosiectau ar wahân, ond dylid eu hintegreiddio'n llawn drwy gynllun strategol cyffredinol er mwyn sicrhau eu bod yn fuddiol i'r ddwy ochr. Yn raddol, dros y degawdau nesaf, bydd yn bosibl torri pob un o'r pedair elfen yn nifer brosiectau integredig llai, a chreu rhywfaint o gamau cyflym yma, tra'n elwa ar strategaeth hirdymor. Mae prosiectau posib llai a gafodd eu trafod yn ystod y charrette yn cael eu dangos mewn matrices ar dudalen 28 gyda nodiadau ar amseru, cyllid a buddion.

1. EGLWYS GADEIRIOL AR GYFER EIN TREFTADAETH DDIWYDIANNOL

Y prif gynnig a ddaeth i'r amlwg o'r charrette oedd bod angen creu profiad i ymwelwyr ar raddfa ac ansawdd yng Nghyfarthfa a fyddai'n ei nodi fel tirnod cenedlaethol o bwys, gydag apêl ryngwladol, ac a fyddai'n manteisio go iawn ar gyfraniad pwysig y dref i'r chwyldro diwydiannol a'n hanes cymdeithasol a gwleidyddol, a thynnu sylw at ryfeddod y gweithfeydd haearn.




Gweithfeydd haearn Cyfarthfa
Llun drwy gwrteisi Llyfrgelloedd Merthyr Tudful



Gweithfeydd haearn Cyfarthfa gan Penry Williams
Llun drwy gwrteisi Llyfrgelloedd Merthyr Tydfil

Ffwrneisi Cyfarthfa heddiw



I wneud hyn, byddai angen adeilad newydd, tirlunio a gosodiadau a fyddai'n datblygu Castell a Pharc Cyfarthfa ar raddfa fawr ac yn integreiddio'r ddau gyda ffwrneisi dramatig Crawshay i'r gorllewin o afon Taf a'r ardal werdd hyd at draphont Cefn Coed. Mynegodd un cyfranogwr yn y charrette yr uchelgais yn ei ddymuniad "i greu Capel Sistine y chwyldro diwydiannol". Bydd lle mor arbennig, sy'n enghraifft o'r safonau uchaf o ran dylunio adeiladau a'r tirwedd, yn ogystal â churadu ac arddangos, yn sbarduno adfywiad pellach, ac yn gosod safonau dylunio newydd ar gyfer gwella'r amgylchedd adeiledig trwy'r dref. Ar y raddfa hon, byddai'n cynhyrchu lefel llawer uwch o swyddi newydd nag unrhyw gynigion blaenorol.

Byddai datblygiad o'r fath yn cwblhau cadwyn o leoliadau treftadaeth ddiwydiannol ar draws de Cymru, o Flaenau Gwent i Abertawe, yn ogystal â manteisio ar leoliad strategol Merthyr - wrth gyffordd ffyrdd yr A470 a'r A465 - fel y pyrth rhwng tirwedd naturiol Bannau Brycheiniog a thirwedd ddiwylliannol y cymoedd.

Byddai'r ganolfan uchelgeisiol hon yn lle i arddangos ystod o gelf ac arteffactau a dynnwyd nid yn unig o amgueddfa bresennol Cyfarthfa ond hefyd, o'n Hamgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol yn ogystal ag o archifau eraill. Byddai hefyd yn defnyddio'r technegau arddangos diweddaraf, gan gynnwys adluniadau ac arddangosiadau CGI dramatig, i adrodd amrywiaeth o hanesion:

- > twf cynhyrchu haearn a hanes arloesedd
- > cyrhaeddiad rhyngwladol y diwydiant – i Ffrainc, Rwsia ac America
- > y meistri haearn a'u perthnasodd gyda'u gweithlu
- > amodau cymdeithasol
- > datblygiad cymdeithasol a diwylliannol – gan gynnwys Terfysg Merthyr ym 1831

Pe bai canolfan o'r fath yn ymwneud â gorffennol Merthyr yn unig, byddai'n gwneud dim ond hanner ei swydd. Mae'n rhaid i'r gorffennol fod yn ffenestr ar gyfer adnewyddu. Er enghraifft, drwy gymryd

esiampol o hanes arloesedd diwydiannol Merthyr, gellid adeiladu oriel hefyd, gydag arddangosfeydd newidiol o arloesedd ym maes celf a diwydiant o'r 21ain ganrif, a fyddai'n helpu i newid canfyddiadau'r cyhoedd ynghylch ardal Merthyr a Blaenau'r Cymoedd, ac yn annog datblygiad economaidd, yn enwedig yn y diwydiannau creadigol modern.

Gallai fod yn lleoliad addas hefyd ar gyfer ymgysylltu â rhai o artistiaid mwyaf arloesol y byd, manteisio ar gasgliad o luniau Amgueddfa Cymru, ar gyfer arddangosfa bwysig o ffotograffiaeth ddiwydiannol Ewrop, neu i arddangos cofnod ffotograffig cofiadwy I.C. Rapaport o Aberfan.

Byddai cyfuniadau o'r uchod yn darparu sylfaen hefyd ar gyfer canolfan addysg o bwysigrwydd cenedlaethol, tebyg i ganolfan breswyl 120 gwely'r Urdd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru Caerdydd a Chanolfan Ddarganfod Margam.

Halden Zollverein, Essen, Yr Almaen



Landschaftspark, Duisburg, Yr Almaen



CASTELL CYFARTHFA

Bydd y penderfyniad allweddol yn ymwneud ag union natur unrhyw ddatblygiad o Gastell Cyfarthfa ei hun. Er y gallai bod lle i ddatblygu canolfan arddangos i'r gorllewin o'r afon yn agos at ffwrneisi Crawshay o'r 19eg ganrif, y consensws yn y charrette oedd y dylai'r datblygiad ganolbwyntio ar y Castell presennol, sef adeilad sy'n cwmpasu ardal fawr o adeiladau ysgol gwag sy'n dyddio o ddechrau'r 20fed ganrif.

Er bod y safle cyfan wedi'i restru, mae'n amlwg bod adeiladau'r ysgol y tu ôl i ffasâd y castell o bwysigrwydd hanesyddol a phensaernïol llawer is na Chastell gwreiddiol Cyfarthfa. Byddai cadw hen adeiladau'r ysgol, gyda'u mannau sefydlog a'u coridorau, yn ei gwneud hi'n anodd datblygu canolfan i ymwelwyr o'r raddfa, y rhagoriaeth a'r hyblygrwydd a ragwelir.

Mae angen adeilad nodedig a fydd, er ei fod yn parchu cymeriad y prif gastell a'r tirwedd o'i gwmpas, nid yn unig yn cynnig darpariaeth ar gyfer arddangos arteffactau, ond a fydd hefyd yn darparu mannau arddangos mwy dramatig a fyddai'n caniatáu cynnal arddangosfeydd technolegol cynhwysol arloesol sy'n gallu darparu elfennau o wled i'r llygaid a'r gallu i dywys ymwelwyr i Ferthyr y gorffennol. Byddai hyn yn cyd-fynd â naws gartrefol hanesyddol ystafelloedd y castell, ac yn denu llawer mwy o ymwelwyr.


Rhan hanfodol o'r broses mewn unrhyw brosiect o'r raddfa hon yw creu cysyniad a briff wedi'i ddatblygu'n gywir. Ond ar ôl gwneud hynny, byddai unrhyw ddatblygiad yn darparu'r cyfle hefyd ar gyfer ymyrraeth bensaernïol fawr - efallai drwy gystadleuaeth bensaernïol - a allai drawsnewid delwedd Merthyr fel canolfan dwristiaeth. Petasai'n cael ei gysylltu'n iawn â safleoedd allweddol eraill, drwy gyfeiriaeth llawn dychymyg a ffisegol ar-lein, byddai effeithiau datblygiad o'r fath yn cael eu gweld dros amser ar draws gweddill y dref a'r rhanbarth. Mae'n annhebygol y bydd yr effeithiau ehangach hyn yn cael eu cyflawni drwy newidiadau cynyddol cymedrol.

PARC CYFARTHFA


Mae Merthyr yn ffodus bod maint llawn parcdir 160 erw'r castell wedi'i gadw. Mae hyn yn cyflwyno cyfleoedd sy'n wahanol i'r cyfleoedd a gyflwynir gan y castell ei hun, er y gallai datblygu'r ddau atgyfnerthu ei gilydd.

Mae'r parc yn ased mawr. Mae ganddo raddfa ei hun a nodweddion dŵr arbennig sy'n gysylltiedig â hanes cynhyrchu haearn. Fodd bynnag, o ran tirwedd, nid yw'r parc wedi gwireddu ei botensial llawn eto i wella ymhellach mewn ffyrdd a allai ei wneud yn atyniad pwysig ynddo'i hun i ymwelwyr.

Unwaith eto, mae dewis. Gellir naill ai rheoli'r parc fel parc trefol safonol, neu gellir ceisio creu gweledigaeth o dirwedd fodern ar gyfer y parc a fyddai'n anelu at ei osod yn y rheng flaen. Gallai hyn gynnwys cerflun mawr yn ogystal â manteisio llawn dychymyg ar nodweddion dŵr y parc. Yn y ddau achos hyn, byddai angen cymryd gofal i ddefnyddio'r arbenigedd comisiynu gorau. Yn hyn o beth, dylai fod yn bosib cyfuno'r hen a'r newydd i greu magned ar gyfer dyraniad o ymwelwyr gwahanol. Gallai hyn ddod yn brosiect ar wahân, sydd angen arbenigedd gwahanol i gwmpasu'r weledigaeth, mireinio'r briff ac arwain y gwaith o'i weithredu.



Ailddychmygu Castell Cyfarthfa
Cadw ac atgyweirio'r prif uchelfan: Dolen
Symbol i'r dirwedd



Castell Cyfarthfa, golygfa o'r awyr.
Llun drwy gwrteisi Llyfrgelloedd Merthyr Tudful.



ENGHREIFFTIAU:

Yr arddangosfa yn y Titanic Centre, Belfast; Eden Project, Cornwall; Sheerness Dockyard; Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne; Yorkshire Sculpture Park; Gerddi Castell Alnwick, Northumberland; Louisiana, ger Copenhagen; Jupiter Artland; Parc Cerfluniau Chianti; Gardd Gerfluniau Amgueddfa Kroller Muller, Otterlo, Yr Iseldiroedd; Fort Bij Vechten, Houten, Yr Iseldiroedd

PRIF BROSIECTAU A THASGAU

> Eglwys Gadeiriol ar gyfer Treftadaeth Ddiwydiannol:

Dylunio a chyflwyno atyniad/cyrchfan ymwelwyr pwysig i dwristiaid a dehongliad o dreftadaeth ddiwydiannol yng Nghyfarthfa; integreiddio â'r dirwedd a digwyddiadau

> Cynllun Parc Cyfarthfa:

Dylunio a gweithredu cynigion ar gyfer datblygu tirwedd Parc Cyfarthfa presennol fel ag y mae i safon uchel a'i ehangu i gynnwys 'parc gorllewinol i'r gorllewin o Afon Taf.

2. PLETHU TIRWEDD GYSYLLTIEDIG

Ni ellir osgoi gosodiad dramatig Castell Cyfarthfa; y Castell sy'n gorwedd ar ochr ddwyreiniol y dyffryn ac sy'n edrych tua'r gorllewin ar draws powlen y cwm, tu hwnt i Pandy Farm a Phont Haearn Pont-y-Cafnau, i'r ffwrneisi diffaith, ond balch gyferbyn. Mae'r olygfa nid yn unig yn dangos cysylltiad gweledol, ond mae hefyd yn dynodi'r cysylltiad anheddol hwnnw rhwng y perchennog chwedlonol a'r busnes, yn ogystal â'r cysylltiad swyddogaethol hanesyddol rhwng cyrsiau dŵr y parc a'r broses cynhyrchu haearn.



Ar hyn o bryd, mae'r cysylltiad hwnnw wedi'i dorri gan briffordd brysur, ymyrraeth ystad ddiwydiannol fechan, coed yn tyfu heb gynllun ac arwyddion gwael. I fynd i'r afael â hyn, mae angen naratif a strategaeth o ran y dirwedd i gysylltu treftadaeth ddiwydiannol ddarniog a gwasgaredig adeiledig yng Nghyfarthfa ac o amgylch yr ardal. Yn bwysicaf oll, byddai hyn yn cynnwys ail-sefydlu cysylltiad wedi'i dirlunio'n well rhwng glannau dwyreiniol a gorllewinol yr afon, ac estyn cysyniad y parc i'r ardal rhwng ffwrneisi Crawshay a thraphont Cefn Coed. At ddiben yr adroddiad hwn, byddwn yn cyfeirio at y rhain fel parciau'r dwyrain a'r gorllewin.

Yn gryno, mae'r saith her o ran y dirwedd yn ardal cyfagos Cyfarthfa yn fawr ond yn gyffrous:

- 1 Datblygu Parc Cyfarthfa, y dwyrain a'r gorllewin, ar hyd y llinellau a nodwyd uchod
- 2 Ail-sefydlu'r cysylltiad gweledol rhwng dwyrain a gorllewin yr afon, ynghyd â llwybrau newydd deniadol i gerddwyr.
- 3 Creu golygfeydd mwy hygyrch ar hyd Afon Taf
- 4 Adfer Pont Haearn Pant-y-Cafnau, a chreu ardaloedd gwyllo cydnabyddedig.
- 5 Gwarchod ffwrneisi Crawshay, yn ôl pob sôn, yr elfen fwyaf dramatig wnaeth oroesi'r diwydiant haearn, mewn ffyrdd a fydd hefyd yn caniatáu mynediad i'r cyhoedd
- 6 Tirlunio'r mannau agored o flaen y ffwrneisi i ganiatáu iddo ddod yn ofod deniadol ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus.
- 7 Creu tirwedd hardd a chydlynol yn y parc gorllewinol, o safle'r ffwrnais i'r gogledd i draphont Cefn Coed.

Mae angen gwneud hyn i gyd mewn ffordd a fydd yn caniatáu i'r cyhoedd 'ddarllen' y dirwedd - gan gynnwys y seilwaith dŵr diwydiannol a'r llwybrau camlas a rheilffyrdd coll. Yn sicr, mewn rhai mannau, bydd angen cynnal ymchwiliadau archeolegol cyn gwneud hyn. Gellir ail-ddelweddu rhannau diwydiannol, ac ychwanegu ymyriadau tirwedd newydd i greu rhwydwaith cydlynol o gyrchfannau.


Bydd strategaethau cynhwysfawr ac wedi'u beirniadu'n dda ar gyfer goleuadau, sain, plannu, tirwedd galed, eglurder llwybrau a seilwaith dŵr yn chwarae rhan bwysig, ac unwaith y byddant yn eu lle, gellir eu datblygu a'u hymestyn dros amser.

Mae potensial hefyd o fewn y parc gorllewinol i ail-ddehongli olwyn ddŵr enfawr 48 troedfedd mewn diamedr cwmni haearn Crawshay - sydd erbyn heddiw, ddim ond i'w gweld mewn rhywfaint o baentiadau o'r 19eg ganrif. Gallai hyn ddarparu tirlnod newydd gwirioneddol syfrdanol yn y parc gorllewinol. Gellid hefyd ei hystyried yn ffynhonnell ynni i ategu cynaliadwyedd Cyfarthfa, ynghyd â phrosiectau ynni eraill ar raddfa lai sy'n manteisio ar y Taf, y Ddyfrffos Taf Fechan a phyllau Cyfarthfa. (Dylai unrhyw astudiaeth o botensial y dirwedd archwilio potensial ynni'r cyrsiau dŵr niferus)

Unwaith eto, ansawdd ydy'r gair pwysig ym mhopeth.

Mae cyfle ychwanegol ym Merthyr, sef dod o hyd i ffordd o gysylltu â'r safleoedd treftadaeth ddiwydiannol eraill yn well ar draws y fwrdeistref. Dylai hyn gael ei wneud mewn ffyrdd sy'n atgyfnerthu cyfleoedd ar gyfer 'teithio llesol', sy'n lleihau'r angen am geir ac yn lliniaru'r rhwystrau canfyddedig a achosir gan ffyrdd prysur. Dylai datblygu Cyfarthfa ei gwneud yn ofynnol hefyd i ailasesu cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus i ganol tref Merthyr, Caerdydd a chyrchfannau eraill ar draws cymoedd de Cymru, ac ystyried opsiynau ar gyfer ymestyn y rhwydwaith Metro arfaethedig, a rhagweld patrymau'r dyfodol.

Ar raddfa leol ac ehangach, mae potensial i strategaethau tirwedd cryf gael eu torri lawr yn brosiectau llai, a chreu rhywfaint o gamau cyflym.



Tirlun gyda'r nos newydd Avia, Sbaen



Halden Zollverein, Essen, Yr Almaen

PROSIECTAU A THASGAU ALLWEDDOL

> Cynllun Parc Cyfarthfa:

Cynllunio a gweithredu cynigion ar gyfer datblygu tirwedd presennol Parc Cyfarthfa i safon uchel a'i ymestyn i ymgorffori 'parc gorllewinol' i'r gorllewin o Afon Taf.

> Cyfarthfa – Cynllun Tirwedd Merthyr:

Cysylltu rhannau treftadaeth; dylent ystyried llwybrau, goleuadau, plannu, tirwedd galed, canfod ffyrdd, dŵr, ynni ac ati.

> Cynllun Tirwedd Rhanbarthol:

Darparu cynnig twristiaeth treftadaeth ddiwydiannol gydlynol yn ne Cymru; safleoedd a map llwybrau; defnyddio brandio; cynnig a darparu ymyriadau tirwedd, arwyddion a chanfod ffyrdd


> Strategaeth Ynni:

Dylunio a gweithredu cynllun(iau) ynni cynaliadwy, lleol; ymrwymo'r gymuned yn y broses

ENGHREIFFTIAU:

Parc Tirlun Diwydiannol Duisburg Nord, yr Almaen; Llwybrau Twristiaid Norwy; Gorsafoedd Bysiau Krumbach, Vorarlberg, Awstria; Bordeaux Parc aux Angeliques; Brikettfabrik Witznitz, Leipzig; Halden Zollverein, Essen; IBA Emscher Park, Rhanbarth Rhur; Tirlun gyda'r nos newydd Avia, Sbaen; Strijp S, Eindhoven; The steel Yard, Providence UDA; Westpark, Bochum, yr Almaen

PLETHU TIRWEDD GYSYLLTIEDIG



3. TU HWNT I GYFARTHFA – TU HWNT I FERTHYR

Tu hwnt i Gyfarthfa

Yn union wrth i'r gwaith o ddatblygu haearn arwain at ddatblygu Merthyr fel tref, dylai fanteisio ar yr hanes hwnnw mewn ffordd fodern fod yn ffynhonnell o adfywiad i'r dref gyfan hefyd. Gall datblygu Cyfarthfa ar y raddfa y rhagwelodd y charrette ddod nid yn unig yn brosiect ar wahân, ond hefyd yn sylfaen ar gyfer adeiladu strategaeth ar gyfer Merthyr ei hun. Dylai fod yn ddull o newid y ffordd y mae'r byd yn meddwl am Ferthyr a'r ffordd y mae Merthyr yn meddwl amdani ei hun. Dylai Cyfarthfa osod safonau ar gyfer popeth mae'r dref yn rhoi cynnig arno, ochr yn ochr ag ansawdd dylunio rhagorol.


Gall hyn ddigwydd mewn o leiaf chwe ffordd:

- 1 Drwy osgoi'r fagl o leoli pob datblygiad newydd yng Nghyfarthfa ei hun.
- 2 Drwy fanteisio ar y nifer lluosog o ymwelwyr fydd yn cael eu denu yn sgil datblygiad Cyfarthfa i gynyddu'r gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr mewn mannau eraill yn y dref. Gellir gwneud hyn drwy i) ddatblygu gwell cysylltiadau rhwng canol y dref a Chyfarthfa, ii) creu teithiau cerdded tywys a llwybrau celf a threftadaeth sy'n croesawu asedau hanesyddol mewn mannau eraill yn y dref, a iii) lleoli gwestai newydd yn fwy canolog. Gallai hyn hefyd helpu i ailfeddwl am fodel traddodiadol y dref yng ngoleuni llai o siopau.
- 3 Ynghyd â'r Tŷ Coch a Theatr Soar yng nghanol y dref, bydd datblygiad amlwg yng Nghyfarthfa yn creu mäs critigol mwy o weithgarwch diwylliannol ym Merthyr a allai, ac a ddylai, ddatblygu momentwm ei hun. Gallai hyn fod ar ffurf deoryddion

neu ganolfannau sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol (y sector sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru) ac sy'n cysylltu â Choleg Merthyr, cyfnodau preswyl artistiaid ac awduron, digwyddiadau untro ac ati. Bydd hefyd yn annog creu rhaglen ddigwyddiadau a fyddai'n cynyddu nifer yr ymwelwyr ymhellach, ac ychwanegu at y potensial ar gyfer cyflogaeth ym maes twristiaeth a hamdden a'r diwydiannau creadigol.

- 4 Drwy ddefnyddio ysbrydoliaeth y tirlunio o ansawdd yn ardal Cyfarthfa, i'r dwyrain a'r gorllewin o'r Taf, i ymestyn unrhyw strategaeth tirlunio i wneud y dref ehangach yn fwy gwyrdd. Mae cymoedd de Cymru yn lle llawer mwy gwyrdd heddiw nag yr oeddent hanner canrif yn ôl. Mae angen ymestyn y broses hon o wneud y strwythur trefol yn fwy gwyrdd drwy blannu coed, ymyriadau ar raddfa fechan, creu rhandiroedd ac ati. Dylai Merthyr anelu at fod yn enghraifft o gynaliadwyedd a lles.

- 5 Drwy ddefnyddio'r un ystyriaethau ansawdd mewn perthynas â'r holl ddatblygiadau eraill, fel datblygu'r orsaf fws, yr holl ddatblygiadau tai, prosiect glan yr afon yn Aberfan, ailddatblygu safle Hoover a 'pharthau cymunedol' arfaethedig y cyngor.
- 6 Drwy ddefnyddio'r holl ddatblygiadau sydd wedi'u llunio fel sail ar gyfer datblygu brand soffistigedig.



3. TU HWNT I GYFARTHFA – TU HWNT I FERTHYR

Tu Hwnt i Ferthyr

Byddai'r datblygiad arfaethedig o arwyddocâd rhanbarthol gwyb hefyd, gyda'r gallu i fod yn brif nod wrth ddatblygu Parc Tirwedd y Cymoedd a ragwelir yn adroddiad Tasglu Cymoedd Llywodraeth Cymru. Dywedodd y tasglu y byddai Llywodraeth Cymru 'yn datblygu naratif positif newydd ar gyfer twristiaeth yn y Cymoedd, ac yn dod o hyd i brosiectau i fodloni'r galw twristiaeth presennol a'r dyfodol, a fyddai'n canolbwyntio ar y dirwedd, y dreftadaeth a'r bobl.' Nododd ei gynllun cyflawni Merthyr fel un o'r canolfannau strategol yn y cymoedd. Gwelodd hefyd rôl i dwristiaeth o ran datblygu'r economi sefydliadol.




Atyniadau twristiaid a safleoedd treftadaeth ddiwydiannol

Roedd yn cynnig:

- > Buddsoddi mewn datblygu cynnyrch ac adeiladu lleoedd gan ddefnyddio cyfleoedd drwy ffrydiau ariannu twristiaeth
- > Datblygu busnesau yn y sector twristiaeth a lletygarwch, gan dynnu sylw at bwysigrwydd hyfforddiant a sgiliau i'r diwydiant
- > Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfaedd yn y diwydiant twristiaeth a lletygarwch.

Byddai'r cynigion a ragwelwyd yn y charrette yn plethu i elfennau eraill o strategaeth y tasglu hefyd, gan gynnwys gwelliannau i'r amgylchedd ffisegol, cynlluniau ynni graddfa fechan, a materion lles.

Dylai sbarduno'r broses o ddatblygu marchnata ar-lein mwy cydlynol ac effeithiol hefyd ar gyfer treftadaeth ddiwydiannol Cymru gyfan. Ar hyn o bryd, nid yw hyn wedi cael ei ddatblygu ddigon, gyda gwefannau presennol yn aml yn rhy leol yn eu cylch gwaith, ddim yn ddigon modern, a heb gysylltiad â gwefannau mawr fel Croeso Cymru. Gellid rhoi mwy o amlygrwydd i dreftadaeth ddiwydiannol fel thema ar wefan Croeso Cymru.



Datblygu brand



Tirwedd a seilwaith gwyrdd

PROSIECTAU A THASGAU ALLWEDDOL

> Cynllun Strategol – Syniadau Mawr:

Dylai hwn fod yn un o'r pethau cyntaf i ddigwydd. Datblygu'r syniadau'r charrette yn yr adroddiad hwn, sy'n cael eu llywio gan astudiaethau safle a chyd-destun pellach ac ymgysylltu â'r gymuned; ei ddatblygu ochr yn ochr â'r cynllun busnes; rhaid i bob prosiect arall ddod o dan y cynllun Syniadau Mawr

> Datblygu Brand:

Datblygu brand i uno elfennau prosiect; creu deunyddiau hyrwyddo; creu gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol

> Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned:

Mwy o ymgysylltu â'r gymuned wrth gyflwyno a chynllunio'r strategaeth, drwy ddefnyddio'r egwyddorion a'r camau a amlinellir yng nghynllun gweithredu Tasglu'r Cymoedd.

ENGHREIFFTIAU:

Willamette Falls Riverwalk, Oregon; Taiyuan Industrial Heritage Transformation gan OMA, Tsieina; Strijp S, Eindhoven; Canolfan Fort Mason, San Francisco

4. FFRAMWAITH BLWYDDYN AR GYFER DIGWYDDIADAU

Byddai datblygiad yng Nghyfarthfa ar y raddfa a ddychmygwyd yn ystod y charrette y cyfraniad unigol mwyaf tuag at wireddu amcanion 'Cyrchfan Merthyr' y cyngor. Byddai'n rhoi Merthyr ar y map yn fwy empathig a diogel nag unrhyw beth a ragwelwyd eto. Byddai'n atgyfnerthu'r holl fentrau hamdden eraill hynny sydd wedi dechrau'n barod. Fel dathliad blwyddyn o hanes, treftadaeth a diwylliant Merthyr – ac o gyfraniad Cymru at y chwyldro diwydiannol – byddai'n creu lefel hollol newydd o sylw a gweithgarwch diwylliannol.



Bydd cyfleusterau newydd yng Nghastell Cyfarthfa, parcdir wedi'i adfywio ac wedi'i dirlunio'n addas, a'r ardal agored o flaen banc ffwrnais Crawshay, i gyd yn lleoliadau amlwg ar gyfer perfformiadau, cerddoriaeth a chelfyddydau gweledol, a fydd yn gallu denu cynulleidfaoedd o bob rhan o'r rhanbarth a thu hwnt.

Mae ystod ac amrywiaeth y digwyddiadau posibl yn ddibendraw, a gellir rhagweld calendr o weithgareddau a fyddai'n annog ymwelwyr i ddychwelyd dro ar ôl tro. Dyma dim ond rhai o'r syniadau a drafodwyd yn ystod y drafodaeth yn y charrette:

- > Gŵyl Merthyr Rising fwy
- > Gwyliau cerddoriaeth o bob math
- > Cyngherddau pop yn yr awyr agored
- > Cyngherddau clasurol, fel Proms in the Park y BBC
- > Perfformiadau gan Theatr Genedlaethol Cymru
- > Gŵyl Oleuadau/Son et Lumiere
- > Biennale dylunio
- > Arddangosfeydd o gerflunwaith
- > Gwyliau bwyd a chrefft
- > Chwaraeon, gweithgareddau, a theithiau cerdded

Byddai'n ddymunol dechrau llunio rhaglen o ddigwyddiadau cyn unrhyw ddatblygiad, er mwyn meithrin brwdfrydedd, ymrwymiad a momentwm yn y dref a'r rhanbarth ehangach.

PROSIECTAU A THASGAU ALLWEDDOL

> Rhaglen Ddigwyddiadau:

Cydlynu a datblygu digwyddiadau sy'n bodoli eisoes, a chreu digwyddiadau newydd i ddarparu rhaglen drwy gydol y flwyddyn; cynnwys y celfyddydau, bwyd, chwaraeon, hamdden; eu marchnata o dan frand y prosiect

> Fframwaith Digwyddiadau - Prif Gynllun:

Darganfod safleoedd a llwybrau posibl ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau ar draws tirwedd y dreftadaeth; cynnig pethau ychwanegol ac ymyriadau; cysylltu â'r cynllun tirlun lleol

ENGHREIFFTIAU:

Night of Heritage Light, Blaenafon a Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill; Floriade Groningen gan West8, yr Iseldiroedd; Frederiksvaerk: Cystadleuaeth Tirwedd, Tref a Gwaith, Denmarc; GR@2013, Marseille-Provence; Hinterland-Kilmahew, yr Alban; Walk the Plank; Gŵyl y Goleuni; Gŵyl Fwyd Conwy; Gwnaed â Llaw; Gŵyl y Gelli; Gŵyl Rhif 6; Gŵyl y Dyn Gwyrdd; Gŵyl Jazz Aberhonddu; Museums at Night; TSB Gŵyl y Goleuni, New Plymouth, Seland Newydd



CH. ADNODDAU, CYFLWYNO A RHEOLI

Does dim amheuaeth y bydd cyflwyno'r weledigaeth a amlinellwyd uchod yn gofyn am adnoddau dynol ac ariannol y tu hwnt i'r rheini sydd gan yr awdurdod lleol ei hun. Bydd angen costio'r gost o weithredu'r holl elfennau a ragwelir yn llawn, ond gallant fod tua £50M, o bosibl ar draws deng mlynedd. Bydd gwireddu'r weledigaeth lawn yn gofyn am ymagwedd arloesol at gaffael a chyflwyno, ac ymrwymiad brwd at Gyngor Merthyr, Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr a Llywodraeth Cymru, ac at sefydliadau cymunedol, rhanddeiliaid a chyllidwyr eraill.

Ydy'n bosibl gwneud hyn? Ein barn bendant yw, ydy – ar yr amod bod pawb wedi ymrwymo i anelu'n uchel. Nid dim ond am ein bod ni'n rhy uchelgeisiol ydym yn dweud hynny, ond oherwydd dim ond drwy anelu'n uchel y bydd y prosiect yn gallu denu'r lefel angenrheidiol o gyllid cyhoeddus a phreifat, ac yn gallu cynhyrchu enillion economaidd pwerus i'r gymuned gyfan. Mae ymddiriedolaethau a sefydliadau mawr y DU yn llawer mwy tebygol o gael eu denu at gynlluniau mentrus o'r math hwn nag at welliannau cynyddol llai.

Ond bydd yn gofyn am gytundeb hefyd rhwng Llywodraeth Cymru, yr awdurdod lleol a rhanddeiliaid cymunedol er mwyn cyflawni pethau: i) dilyn ymagwedd ddiwygiedig i Gronfa Dreftadaeth y Loteri a ii) gwneud cais brys am arian Ewropeaidd cyn i'r giât gau ar geisiadau'r DU.

Mae profiad gyda phrosiectau o'r raddfa hon yn awgrymu y bydd yn hanfodol creu dull a chanddo bwrpas arbennig, gyda statws elusennol, i lywio'r prosiect craidd. Bydd strwythur o'r fath yn darparu fframwaith i farchnata'r cymysgedd cywir o sgiliau, i ddatblygu'r cynigion ac i chwilio am gyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau mawr. Yn bwysicaf oll, bydd yn caniatáu hefyd ar gyfer dilyniant hanfodol o weledigaeth a gweithredu ar draws cyfnod hir a thu hwnt i gylchoedd

gwleidyddol. Mae'r Cyngor eisoes wedi cynnal ymarferion caffael ar gyfer mewnbwn pensaernïol, dylunio arddangosfeydd a mewnbwn cynllunio busnes. Gallai'r cwmnïau a benodir ffurfio craidd y tîm cynllunio, ond byddai angen eu harneisio i'r weledigaeth ehangach hon.

Efallai y bydd yn bosib torri'r prosiect yn gydrannau a fyddai'n gofyn am wahanol sgiliau:

- i) Arddangosfa Castell Cyfarthfa a Chanolfan i Ymwelwyr (yn cynnwys safleoedd treftadaeth perthnasol yn y dref)
- ii) Gweledigaeth o'r dirwedd – i'r dwyrain a'r gorllewin o afon Taf
- iii) Rhaglen addysg a mentergarwch berthnasol
- iv) Rhaglen Ddigwyddiadau.

Rydym yn argymhell y dylai'r Cyngor drafod ariannu cyfnod rhagarweiniol i gwmpasu'r prosiect yn fwy manwl gyda Llywodraeth Cymru a / neu Gronfa Dreftadaeth y Loteri - i ddiffinio amcanion, costau, ffrydiau incwm, dilyniant a hyfywedd. Dylai'r Cyngor fanteisio hefyd ar gyfleoedd i gyfathrebu'n barhaus â Chomisiwn Dylunio Cymru wrth i'r weledigaeth a phrosiectau dilynol gael eu datblygu a'u cyflwyno.

CASGLIAD

Dangosodd diwrnod y charrette, heb os nac oni bai, bod gan Ferthyr adnoddau o deyrngarwch pwerus i'r lle, a balchder yn ei hanes. Yr hyn oedd yn cymell yr holl gyfranogwyr oedd codi proffil y dref i'r byd heddiw i sefyllfa sy'n hollol gymesur â'i phwysigrwydd hanesyddol yn ein hanes diwydiannol, cymdeithasol a gwleidyddol. Rydym yn gobeithio y bydd y cynigion hyn yn helpu Cyngor Merthyr, Llywodraeth Cymru a'r gymuned gyfan i bontio'r bwlch hwnnw a chyflawni'r trawsnewidiad y mae Merthyr wedi bod yn aros yn rhy hir amdano.

PROSIECTAU A THASGAU ALLWEDDOL

- > **Ffurfio tîm cyflwyno a rheoli / Dull Pwrpas Arbennig:**
Dod â'r tîm/au neu bobl gywir at ei gilydd. Bod yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli prosiectau mewn partneriaeth â'r Cyngor; datblygu cynllun busnes, gweledigaeth a phrif amcanion i lywio'r strategaeth cyfalaaf a referniw o fewn y cynllun busnes.

FFYNONELLAU ARIANNU I'W HARCHWILIO

- > **Cronfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru**
<https://naturalresources.wales/about-us/funding/?lang=cy>
- > **Llywodraeth Cymru**
<http://gov.wales/fundinggrants/?skip=1&lang=cy>
- > **Cronfa Dreftadaeth y Loteri**
<https://www.hlf.org.uk/looking-funding/where-we-fund>
- > **Cronfa Treftadaeth Bensaernïol**
<http://ahfund.org.uk/>

- > **Cronfa Henebion**
<https://www.wmf.org/what-we-do>
- > **Sefydliad Esmee Fairburn**
<https://www.esmeefairbairn.org.uk/>
- > **Sefydliad Waterloo**
<http://www.waterloofoundation.org.uk/>
- > **Ymddiriedolaeth Teulu Sainsbury**
<http://www.sfct.org.uk/>
- > **Cronfa Caffael Archaeolegol Ymddiriedolaeth Headley ac Amgueddfeydd Headley**
- > **Sefydliad Teulu Ashley**
<http://ashleyfamilyfoundation.org.uk/>
- > **Sefydliad Wolfson**
<http://www.wolfson.org.uk/>
- > **Sefydliad Garfield Weston**
<https://garfieldweston.org/>
- > **Sefydliad Foyle**
<http://www.foylefoundation.org.uk/>
- > **Sefydliad Paul Hamlyn**
<https://www.phf.org.uk/>
- > **Ymddiriedolaeth Gibson**
<http://www.gcgct.org/>

Atodiad A: Matrics o brosiectau, adnoddau a manteision posibl

Prosiect		Amserlen		Pobl a Sgiliau	Strategaeth a Chost Caffael
Pwrpas	Prif Dasgau	Dechrau	Hyd		
Ffurio tîm/adnodd cyflwyno a rheoli	Bod yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli prosiectau mewn partneriaeth â Chyngor Merthyr; datblygu cynllun busnes, gweledigaeth ac amcanion allweddol	Tymor byr (<6 mis)	Tymor hir	Arweinydd uchelgeisiol / a chanddo weledigaeth; rheoli prosiectau, gwybodaeth ariannu / caffael; rheoli digwyddiadau	£-££ Proses recriwtio enghreifftiol i ddenu arweiniad. Aildrefnu adnoddau presennol
Cynllun Strategol – Syniadau Mawr	Datblygu syniadau'r charrette sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn, sy'n cael eu llywio gan astudiaethau safle a chyd-destun pellach ac ymgysylltu â'r gymuned; datblygu ochr yn ochr â'r cynllun busnes; rhaid i bob prosiect arall ddod o dan y cynllun Syniadau Mawr	Tymor byr (<6 mis)	Tymor hir – i gael ei adolygu'n rheolaidd	I'w reoli gan y tîm cyflawni; I'w gynhyrchu gan benseiri, penseiri tirwedd, dylunwyr, rheolwyr prosiect ...	£ Creu briff da; penodi tîm dylunio gwybodus i lunio'r cynllun cychwynnol (mae'n bosibl y bydd rhai o'r bobl oedd yn bresennol yn y charrette mewn sefyllfa dda i wneud hyn); adolygu'n rheolaidd
Brandio	Datblygu brand i uno elfennau prosiect; creu deunyddiau hyrwyddo; creu gwefan a chyfrifon cyfyngau cymdeithasol	Tymor byr (<6 mis) 	Tymor byr, camau cyflym	Dylunydd Graffeg/Arbenigwr Brandio, dylunydd gwefannau	£ Creu briff da ar sail y cynllun Syniadau Mawr; penodi cynghorydd/cynghorwyr i gynnal ymarfer brandio. Ychwanegu gwerth at brosiectau eraill
Eglwys Gadeiriol ar gyfer Treftadaeth Ddiwydiannol – Castell Cyfarthfa	Dylunio a chyflwyno atyniad/lleoliad mawr i ymwelwyr a dehongli treftadaeth ddiwydiannol; integreiddio â'r dirwedd a digwyddiadau	Tymor byr – canolig (<18 mis)	Cyflwyno yn y tymor canolig; rheolaeth ac etifeddiaeth yn y tymor hir	Penseiri; artistiaid; penseiri tirwedd; peirianwyr; ymgynghorwyr costau; arbenigwyr dylunio arddangosfa a churadu; prosiect sy'n cael ei gyflwyno gan y tîm dylunio	£££ Creu briff manwl yn unol â'r cynllun Syniadau Mawr; caffael tîm dylunio dan arweiniad pensaer (Nodyn: gallai orgyffwrdd gyda Chastell Cyfarthfa a Phrosiect y Parc, yn dibynnu ar y gwrandawriad; blaenoriaethu ansawdd
Dwyrain a Gorllewin Parc Cyfarthfa	Dylunio a gweithredu cynigion i'w defnyddio ar gyfer Parc Cyfarthfa a'i gysylltiadau	Tymor byr - canolig (<18 mis)	Cyflwyno dros y tymor canolig i hir; rheolaeth ac etifeddiaeth tymor hir	Penseiri; artistiaid; penseiri tirwedd; peirianwyr; ymgynghorwyr costau; arbenigwyr curadu a dylunio arddangosfeydd; prosiect sy'n cael ei gyflwyno gan y tîm dylunio	£££ Creu briff manwl yn unol â'r cynllun Syniadau Mawr; caffael tîm dylunio dan arweiniad pensaer; blaenoriaethu ansawdd
Gofod Digwyddiadau Ffwrnais	Dylunio a chyflwyno gofod digwyddiadau hyblyg wrth ymyl y ffwrneisi; dylai adlewyrchu neu dynnu sylw at ryfeddod diwydiannol gweithfeydd dur colli; cadw'r ffwrneisi	Tymor byr - canolig (<18 mis) Fel cyfnod cynnar y fframwaith digwyddiadau	Cyflwyno yn y tymor canolig fel cyfnod cynnar y fframwaith digwyddiadau	Penseiri, penseiri tirwedd; peirianwyr strwythurol; goleuo, sain ar gyfer digwyddiadau ac ati. arbenigwyr dylunio	££ Creu briff yn unol â'r Fframwaith Gofod Digwyddiadau;
Plethu Tirwedd Gysylltiedig – Cynllun Tirwedd Cyfarthfa-Merthyr	Cysylltu rhannau treftadaeth; Dylai ystyried llwybrau, goleuadau, plannu, tirwedd galed, dod o hyd i ffordd, dŵr, ynni ...	Tymor byr - canolig (<18 mis)	Cyflwyno dros y tymor canolig; cynnal dros y tymor hir; rhywfaint o gamau cyflym; gellid cyflwyno'r broses fesul cam	Penseiri tirwedd, penseiri, artistiaid, ymgynghorwyr dylunio arbenigol eraill	£££ Creu briff da ar sail y cynllun Syniadau Mawr; penodi ymgynghorwyr; tendr i gontractwyr; gellid cyflwyno'r broses fesul cam
Tirwedd Treftadaeth Ddiwydiannol – Cynllun Tirwedd Rhanbarthol	Darparu cynnig twristiaeth treftadaeth ddiwydiannol gydlynol yn ne Cymru; safleoedd a llwybrau map; cymhwyso brandio; ymyriadau tirwedd	Tymor byr – canolig (<18 mis) 	Cyflwyno dros y tymor canolig; rhywfaint o gamau cyflym; gellid cyflwyno'r broses fesul cam	Cydlynw â staff ar gyfer safleoedd eraill; penseiri, penseiri tirwedd ac artistiaid; arbenigwyr brandio a thwristiaeth	££ Prosiect peilot / cystadleuaeth ar gyfer gosodiadau tirwedd:
Strategaeth Ynni	Dylunio a gweithredu cynllun/iau ynni lleol, cynaliadwy; ymgysylltu â'r gymuned yn y broses	Tymor byr - canolig (<18 mis)	Cyflwyno dros y tymor canolig fel rhan o strategaeth tirwedd leol; gellid cyflwyno'r broses fesul cam	Penseiri tirwedd; ymgynghorwyr ynni a pheirianeg sifil; arbenigwyr cynllunio	££-£££ Creu briff yn unol â chynllun tirwedd lleol; denu'r gymuned/ystyried perchnogaeth gymunedol. gwrthbwysio buddsoddiad drwy gostau rhedeg/refeniw
Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned	Defnyddio'r egwyddorion a'r camau a amlinellir yng Ngweithlu'r Cymoedd a phecyd cymorth Shape My Town i fanteisio i'r eithaf ar ymgysylltu â'r gymuned o ran y strategaeth cynllunio a chyflwyno	Tymor byr (<6 mis) 	Tymor hir, rhywfaint o gamau cyflym	Dylunwyr a phobl broffesiynol greadigol i hwyluso; grwpiau lleol, unigolion, ysgolion, colegau i gymryd rhan	£ Penodi ymgynghorwr/wyr i ymgysylltu â'r gymuned yn greadigol wrth gynllunio prosiect, rhaglennu a chyflwyno digwyddiadau. Ychwanegu gwerth at brosiectau eraill
Rhaglen Ddigwyddiadau	Cydlynw a datblygu digwyddiadau sy'n bodoli eisoes, a datblygu rhaglen newydd i ddarparu rhaglen gydol y flwyddyn; cynnwys y celfyddydau, bywd, chwaraeon, hamdden...	Tymor byr (<6 mis) 	Camau cyflym tymor byr; ehangu a datblygu dros y tymor hir	Tîm cyflwyno/rheoli; cydlynw â threfnwyr digwyddiadau presennol	£-££ Adeiladu rhaglen dros amser; marchnata o dan frand y prosiect
Fframwaith Digwyddiadau – Prif Gynllun	Darganfod safleoedd a llwybrau posibl ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau ar draws tirwedd y treftadaeth; cynnig pethau ychwanegol ac ymyriadau; cyswllt i'r cynllun tirlun lleol	Tymor byr - canolig (<18 mis)	Cyflwyno fesul cam dros y tymor canolig i hir	Penseiri, penseiri tirwedd; rheoli digwyddiadau; ymgynghorwyr y celfyddydau a chwaraeon; arbenigwyr dylunio digwyddiadau	£-££ Ymgynghori â threfnwyr digwyddiadau presennol; creu briff da ar sail ymgynghori â syniadau'r Cynllun Syniadau Mawr; tîm dan arweiniad pensaer gydag ymgynghorwyr arbenigol



Manteision				
Economaidd	Amgylcheddol	Iechyd a Lles	Cymuned	Diwylliannol
Wedi darganfod ffynonellau cyllid; defnydd effeithlon o gronfeydd ac adnoddau; swyddi newydd wedi'u creu	Trosolwg cytbwys o fuddion economaidd, amgylcheddol, lles, cymunedol a diwylliannol	Trosolwg cytbwys o fuddion economaidd, amgylcheddol, lles, cymunedol a diwylliannol	Trosolwg cytbwys o fuddion economaidd, amgylcheddol, lles, cymunedol a diwylliannol	Trosolwg cytbwys o fuddion economaidd, amgylcheddol, lles, cymunedol a diwylliannol
Mae cynllun uchelgeisiol, amlwg yn denu cyllid a buddsoddiad; defnydd cydlynol o gyllid / adnoddau	Amcanion amgylcheddol integredig, hirdymor; cydlynu â chynllun Lles yr ALI	Opsïynau i integreiddio â mentrau eraill a ddarganfuwyd; Cydlynu â chynllun Lles yr ALI	Integreiddio prosiectau cymunedol presennol â'r cynllun Syniadau Mawr	Rhoi diwylliant a threftadaeth leol ar lwyfan rhyngwladol
Hunaniaeth gydlynol i elfennau o'r prosiect i ddenu buddsoddiad	Hyrwyddo mentrau a manteision amgylcheddol	Hyrwyddo ac ymwneud mwy â mentrau cymunedol	Annog ymwybyddiaeth leol, diddordeb a synnwyr o fod yn berchen ar dreftadaeth	Tynnu sylw at asedau diwylliannol a threftadaeth.
Cynyddu nifer yr ymwelwyr a faint maen nhw'n ei wario, gan gynnwys ymwelwyr rhyngwladol; swyddi newydd; cyfleoedd addysg	Cyfle ar gyfer dylunio cynaliadwy enghreifftiol; integreiddio â seilwaith gwyrdd a thirwedd	Ymgysylltu â gweithgareddau diwylliannol, a gwell cysylltiad â mannau gwyrdd i wella lles	Darparu calon ddiwylliannol y gymuned; lle i'r gymuned ymfalchïo ynddo	Gosod treftadaeth Merthyr ar lwyfan rhyngwladol; cefnogi diwylliant lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
Cynyddu nifer yr ymwelwyr a faint maen nhw'n ei wario, gan gynnwys ymwelwyr rhyngwladol; swyddi newydd; cyfleoedd addysg	Cyfleoedd i wella bioamrywiaeth; ailddefnydd cynaliadwy o adeilad hanesyddol a thirwedd	Lle gwyrdd hygrych, cysylltiedig ar gyfer cerdded, beicio a chwarae	Darparu calon ddiwylliannol y gymuned; lle i'r gymuned ymfalchïo ynddo	Gwarchod asedau treftadaeth ffisegol; adrodd hanes Cyfarthfa
Cynyddu nifer yr ymwelwyr a faint maen nhw'n ei wario; annog pobl i ddychwelyd; swyddi newydd; cefnogi busnes lleol; cyfleoedd addysg; cyfleoedd ar gyfer arferion dylunio bach	Ailddefnydd cynaliadwy o hen safle diwydiannol		Gwella cyfranogiad ac integreiddio cymunedol; cefnogi busnesau a mentrau cymunedol presennol a newydd	Tynnu sylw at sgiliau lleol yn y celfyddydau a chwaraeon; gwneud ymwelwyr yn ymwybodol o asedau diwylliannol, hanes a diwylliant; rhoi Merthyr ar y map fel cyrchfan ddiwylliannol
Cynyddu gwariant twristiaeth; gwerth gwell o asedau presennol; cysylltiadau gwell â mannau manwerthu canol trefi ac ati; cyfleoedd addysg	Cyfleoedd i wella bioamrywiaeth. Cefnogi ynni adnewyddadwy ac ansawdd aer; gostwng y defnydd o geir drwy lwybrau cerdded/seiclo gwell	Manteision iechyd drwy lwybrau teithio egnïol gwell; a mynediad i fannau gwyrdd	Cyfleoedd ar gyfer ymwneud â'r gymuned; mwy o ymwybyddiaeth leol o dreftadaeth	Tynnu sylw at werth asedau diwylliannol a threftadaeth
Cynnig twristiaeth gwell yn ne Cymru; cyfleoedd ar gyfer arferion dylunio bach / ifanc; cyfleoedd addysg	Mynediad gwell i fannau gwyrdd a seilwaith; lleihau'r defnydd o geir drwy gludiant cyhoeddus integredig	Llwybrau teithio egnïol gwell a mynediad i fannau gwyrdd ar draws y cymoedd	Cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned	Adrodd stori rôl Cymru yn well yn y chwyldro diwydiannol ac ati.
Ynni cynaliadwy, cost-effeithiol ar gyfer y gymuned; cyfleoedd addysg a sgiliau	Cyflenwad ynni cynaliadwy arloesol; cyfleoedd i wella ansawdd yr aer a bioamrywiaeth	Integreiddio â seilwaith mewnol gwyrdd/glas hygrych	Ymgysylltu â'r gymuned a 'bod yn berchen' ar gyflenwad ynni	Myneigiant newydd o hanes arloesedd diwydiannol Merthyr
Cynyddu'r budd economaidd i fusnesau cymunedol a lleol; ymuno â buddsoddiad lleol presennol	Cyfle i archwilio i gynlluniau ynni cymunedol	Cydlynu â Chynllun Lles lleol a Chynllun Teithio Egnïol	Mae ymgysylltu â'r gymuned a phrynu i mewn yn creu cyfleoedd ac yn cael gwared ar rwystrau a gwrthwynebiad i newid	Mwyhau'r gwerth o weithgareddau diwylliannol lleol ac asedau presennol
Mwy o ymwelwyr a gwariant; annog pobl i ddychwelyd; swyddi newydd; cefnogi busnes lleol; cyfleoedd addysg; cyfleoedd ar gyfer arferion dylunio bach	Annog y defnydd o gynnyrch lleol; tynnu sylw at werth y dirwedd a seilwaith gwyrdd	Annog cyfranogiad mewn chwaraeon a bwyta'n iach	Gwella cyfranogiad cymunedol; cefnogi busnesau a mentrau cymunedol presennol a newydd	Tynnu sylw at sgiliau lleol yn y celfyddydau a chwaraeon; ymwelwyr yn ymwybodol o asedau diwylliannol, hanes a diwylliant; rhoi Merthyr ar y map fel cyrchfan ddiwylliannol
Cynyddu nifer yr ymwelwyr a faint maen nhw'n ei wario; annog pobl i ddychwelyd; swyddi newydd; cefnogi busnes lleol; cyfleoedd addysg; cyfleoedd ar gyfer arferion dylunio bach	Annog y defnydd o gynnyrch lleol; tynnu sylw at werth y dirwedd a seilwaith gwyrdd	Annog cyfranogiad mewn chwaraeon, gweithgareddau a bwyta'n iach	Gwella cyfranogiad cymunedol; cefnogi busnesau a mentrau cymunedol presennol a newydd	Tynnu sylw at sgiliau lleol yn y celfyddydau a chwaraeon; ymwelwyr yn ymwybodol o asedau diwylliannol, hanes a diwylliant; rhoi Merthyr ar y map fel cyrchfan ddiwylliannol

ATODIAD B

ASTUDIAETHAU ACHOS DETHOL

NIGHT OF HERITAGE LIGHT GWEITHFEYDD HAEARN BLAENAFON



Society of Light and Lighting
gyda Hoare Lea Lighting
2015

- > Taflu 'golau newydd' ar Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO
- > Rhan o ddigwyddiadau SLL o amgylch y wlad sy'n dathlu Blwyddyn Ryngwladol y Golau
- > Tynnodd y golau sylw at y cysylltiad rhwng y Gweithfeydd haearn a'r gymuned
- > Pont wedi'i goleuo gydag enwau aelodau o'r gymuned yn ystod y cyfnod yr agorwyd y gweithfeydd haearn
- > Tynnu sylw at rôl Blaenafon yn y Chwyldro Diwydiannol

BORDEAUX PARC AUX ANGELIQUES



Bordeaux, Ffrainc
Michel Desvigne Paysagiste, Inessa Hansch
Architect, Artelia Bordeaux

- > Hen safle diwydiannol yn y ddinas a gafodd ei adfer i greu parc gwyrdd
- > Safleoedd wedi'u plannu fesul dipyn wrth iddynt ddod ar gael i'r ddinas eu prynu
- > Mae plannu graddol yn arwain at batrwm tebyg i gridiau o barciau gyda choed o aeddfedrwydd gwahanol
- > Proses sy'n cael ei harwain gan gysyniadau sy'n datblygu'n araf ac yn syml heb unrhyw ddyluniad cynamserol

BRIKETTFABRIK WITZNITZ, LEIPZIG



Florian Beigel, Philip Christou
ac Uned Ymchwil Pensaernïaeth,
Prifysgol Fetropolitan Llundain
1996 & 2000

- > Dull tri cham tuag at ddatblygu safle cyn-ddiwydiannol mawr: yn gyntaf, dadansoddi'r presennol, yn ail, meithrin yr ardal i ffurfio gerddi, yn drydydd, trefoli'r ardal yn y dyfodol
- > Mae'r strategaeth yn hyblyg o ran na fydd unrhyw alw am ddatblygiad yn y dyfodol, bydd y gerddi yn aros yno
- > Safle wedi'i rannu'n 'feysydd gweithgarwch' yn seiliedig ar ddeunydd nodedig a chymeriad gofodol sy'n llywio datblygiad yn y dyfodol

FLORIADE GRONINGEN 2012, GRONINGEN



Groningen, West 8 yr Iseldiroedd ar gyfer
Gemeente Groningen

- > Gŵyl a gynigiwyd fel rhan o expo garddwriaethol genedlaethol
- > Integreiddio adeiladau treftadaeth ac amaethyddiaeth â defnyddiau a gweithgareddau graddfa ddynol
- > Hen ffatri siwgr a ddefnyddiwyd fel canolbwynt y digwyddiad
- > Ymyriadau dros dro

ATODIAD B

ASTUDIAETHAU ACHOS DETHOL

FORT BIJ VECHTEN - YR AMGUEDDFA LLINELL DDŴR GENEDLAETHOL



Houten, Yr Iseldiroedd

West 8 & Rapp+Rapp gyda Jonathan Penne Architecten, Bunker Q, K2, Parklaan & Anne Holtrop ar gyfer Talaith Utrecht

- > Adfywio'r gaer a'r adeiladau cysylltiedig sy'n ffurfio Amgueddfa Llinell Ddŵr Genedlaethol newydd
- > Adfywio treftadaeth â strategaethau tirwedd ac ecoleg integredig
- > Fel rhan o'r naratif hanesyddol, cafodd band ar draws y safle ei adael fel ei fod yn adfer i'w gyflwr naturiol

CANOLFAN FORT MASON, SAN FRANCISCO



San Francisco, Yr Unol Daleithiau

West 8 gyda Bionic Landscape, Scaleshift, Jensen Architects ar gyfer Canolfan Fort Mason gydag Ardal Hamdden Genedlaethol y Golden Gate

- > Adfywio rhan o lannau San Francisco
- > Cyrchfan gymunedol gyda'r potensial i ddod yn gyrchfan ddiwylliannol ranbarthol
- > Cynllun cysyniadol gyda chysylltiadau, ysgogiad ac adfywiad y gaer
- > Strategaethau dylunio hyblyg sy'n cydbwysu arloesedd a chadwraeth

FÜRST-PÜCKLER-LAND - IBA SEE



Lower Lusatia, yr Almaen
Cymdeithas IBA
2000-2010

- > Wedi'i ysbrydoli gan yr IBA Emscher Park, ond yn adlewyrchu hanes mwyngloddio brig yr ardal
- > Strategaeth lefel ranbarthol o naw o ardaloedd o dirwedd ar wahanol themâu, fel celf tirlun a thirwedd agored
- > Mae llwybr yn cysylltu'r holl dirwedd â'r is-brosiectau cysylltiedig
- > Llyn wedi'i wneud â llaw wedi'i ffurfio yn sgil llenwi'r gweithfeydd glo brig yn yr ardal

GR2013, MARSEILLE-PROVENCE



2013 European Capital of Culture
Cymdeithas IBA
2011-2013

- > Prosiect o deithiau cerdded diwylliannol a chyfranogol
- > Wedi'i ddatblygu gydag artistiaid lleol
- > Y nod yw cynrychioli'r ecoleg a'r dirwedd ranbarthol mewn ffordd ddiwylliannol
- > Astudiaethau creadigol gan ffotograffwyr, geograffwyr, artistiaid a churaduron

ATODIAD B ASTUDIAETHAU ACHOS DETHOL

HALDEN ZOLLVEREIN, ESSEN



Essen, yr Almaen

Planergruppe Oberhausen & Ulrich Ruckriem
(artist)

Ers 1994

- > Mae ymyriadau celf yn creu hierarchaeth ofodol newydd a dealltwriaeth o'r ardal
- > Diffyg cynllunio traddodiadol bwriadol a gwneud penderfyniadau
- > Mae awyrgylch a chymeriad y lle yn arwain y prosiect neu'r fenter nesaf
- > Ymyriadau mwy amlwg ym Mharc Zollverein i greu llwybrau a gofodau

HINTERLAND - KILMAHEW/ ST PETER'S SEMINARY



Helensborough, yr Alban

NVA, Avanti Architects, NORD Architects &
ERZ Landscape Architects

- > Ailddefnyddio hen adeilad Semenaid oedd wedi bod yn wag ers degawdau
- > Gwledd golau a sain ar gyfer digwyddiad lansio Gŵyl Bensaerniaeth yr Alban 2016
- > Rhan o raglen uwchgynllun ehangach i greu tirwedd greadigol a chynhyrchiol
- > Ymgysylltiad corfforol, synhwyraidd a deallusol gweithredol yn y lle arallfyd arall
- > Gofod celf a hyfforddiant, llwybrau cerdded, tyfu, gwersylla


IBA EMSCHER PARK - ARDAL RUHR



Ruhr District, Yr Almaen
Cymdeithas IBA
1989–1999

- > Strategaeth i ailstrwythuro rhanbarth ôl-ddiwydiannol
- > Ymyriadau lleol wedi'u cymhwyso mewn meysydd strategol pwysig
- > Mae llwybrau tirwedd a hamdden yn dilyn afon Emscher drwy gydol y rhanbarth
- > Ymyriadau diwylliannol yn aildefnyddio hen seilwaith ddiwydiannol
- > Ailgreu'r system ddŵr ecolegol ac ail-naturolï'r tir

GARDD GERFLUNIAU AMGUEDDFA KROLLER MULLER, OTTERLO



Otterlo, Yr Iseldiroedd
ar gyfer Amgueddfa Kroller Muller

- > Integreiddio dyluniad y dirwedd a chelf i ehangu'r cynnig twristiaeth
- > Parc wedi'i ehangu a'i ailgynllunio i ddarparu ardaloedd o gymeriadau gwahanol ar gyfer arddangosfeydd
- > Mae ardaloedd cymeriad tirwedd tymhorol yn caniatáu ar gyfer gofodau arddangos amrywiol ar gyfer cerfluniau

RHESTR O GYFRANWYR

- > David Anderson, Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- > Catherine Armstrong, Nash Partnership
- > Lorena Axinte, Prifysgol Caerdydd
- > Patrick Barry, Arup
- > Dawn Bowden, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- > Amanda Brake, Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru
- > Lindsey Brown, Sustrans Cymru
- > Ruth Cayford, Cyngor Caerdydd
- > Jane Chamberlain, Caroe & Partner Architects
- > Morgan Chambers, Ymddiriedolaeth Treftadaeth
- > Kim Colebrook, Can Do Team
- > John Counsell, Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd
- > Elaine Davey, Victorian Society Wales Group
- > Carole-Anne Davies, Comisiwn Dylunio Cymru*
- > Geraint Talfan Davies*
- > Angharad Davies, Design Circle Cymdeithas Frenhinol Penseiri yn Ne Cymru
- > Ginnie Day, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
- > Biba Dow, Dow Jones Architects*
- > Richard Essex, RSCW
- > Sue Essex
- > Wayne Forster, Ysgol Bensaerniaeth Cymru*
- > Andy Fosterjohn, Canolfan Gyrfaoedd Cymru
- > Steve George, George and Co
- > Jose Gonzalez, CH2M
- > Rhian Haf, Artist*
- > Twm Harris-Davies, Austin-Smith:Lord
- > Jen Heal, Comisiwn Dylunio Cymru*
- > Jonathan Howells, Amgueddfa Cymru
- > Perry Johnson, Marvel Limited
- > Alun Jones, Dow Jones Architects*
- > Matthew Jones, CoombsJones*
- > David Jones, David Jones Associates
- > Stephen Jones, ICE
- > Hefin Jones, Ymddiriedolaeth Treftadaeth
- > Priit Jurimae, Scott Brownrigg
- > Mark Lawton, HLM*
- > Wendy Maden, Comisiwn Dylunio Cymru*
- > Lisbeth McLean, Canolfan Soar
- > Jan Morgan, Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr
- > Hamish Munro, TC Consult*
- > Mary O'Connor, WYG
- > Y Cyngorydd, Kevin O'Neill, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- > John Owen, Coleg yr Iesu, Aberhonddu
- > Richard Parnaby, Pensaer Siartredig
- > Emma Price, Studio Response
- > Alison Richards, ARRT
- > Jonathan Richards
- > Maria Rojas Gomez, CH2M
- > Lucia Sellars, CH2M
- > Jane Sellwood, Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr
- > Karn Shah, CH2M
- > Amanda Spence, Comisiwn Dylunio Cymru*
- > Ceinwen Statter, Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr
- > Wiard Sterk, Urban Condition
- > Ryan Stuckey, Stuckey Architects
- > Robert Taylor, ARRT
- > Susan Taylor, Coleg Merthyr
- > Cllr. Geraint Thomas, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- > Rhian Thomas, ALT-Architecture*
- > Rob Thomson, Ymddiriedolaeth Treftadaeth
- > Gavin Traylor, Design Circle Cymdeithas Frenhinol Penseiri yn Ne Cymru
- > Paul Treweeks, Scott Brownrigg
- > William Wilkins, William Wilkins Associates*
- > Jonathan Williams, Coleg Celf Abertawe
- > Mary Wrenn, Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru

**Wedi cyfrannu at fwy o weithdai dylunio a chynnwys yr adroddiad*

CYDNABYDDIAETHAU

Trefnwyd y Charrette gan Gomisiwn Dylunio Cymru ac Ysgol Bensaerniaeth Cymru ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr, gyda chymorth gan Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr a Design Circle Cymdeithas Frenhinol Penseiri yn Ne Cymru. Diolch yn arbennig i Jan Morgan a Jane Sellwood o Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr a'u tîm am baratoi'r lleoliad a'r arlwyio; Geraint Talfan Davies am gynnig y charrette, cyngori drwy gydol y broses ac awdurdodi llawer o'r adroddiad hwn; Amanda Spence, Carole-Anne Davies, Wendy Maden a Wayne Forster am drefnu'r digwyddiad; i David Anderson, Hefin Jones, y Cyng. Kevin O'Neill, y Cyng. Geraint Thomas a Geraint Talfan Davies am siarad yn y Charrette; ac i Josh Lewis am wneud y modelau tirwedd.

Yn benodol, rydym eisiau cydnabod haelioni a dewrder Cyngor Merthyr am wneud y charrette hon yn bosibl

- > Dylunio graffeg gan Marc Jennings <http://www.theundercard.co.uk/>
- > Lluniau gan Alex Lloyd Jenkins <http://alexlloydjenkins.com/>
- > Gallwch weld ffilm fer o'r Charrette ar-lein. Ffilm gan Tantrwm <http://tantrwm.com/>





TREFTADAETH
DDIWYDIANNOL

MERTHYR
TUDFUL



TREFTADAETH
DDIWYDIANNOL

MERTHYR
TUDFUL
